



## Polisi Addysg Arbennig

### Amcanion

Nôd yr ysgol yw creu awyrgylch lle mae holl blant yr ysgol yn teimlo'n rhydd i ofyn am gymorth, fod ganddynt ddi-ddordeb yn eu gwaith, hunan barch a'r ysgogiad i wneud eu gorau.

Mae'r plant sydd ag angen Addysg Anghenion Arbennig yn cynnwys plant â phroblemau:

- addysgol
- corfforol
- ymddygiad
- emosïynol

Ein nod yw sicrhau fod pob plentyn yn cael y cyfle i ddilyn y Cwricwlwm Cenedlaethol o fewn ei allu ac iddo fod yn aelod cyflawn o'r ysgol. Rhaid sicrhau fod y plentyn yn teimlo'n arbennig ac nid yn wahanol.

### Anghenion Addysgol Arbennig

Credwn fod gan bob plentyn anghenion sydd yn arbennig iddyn nhw yn addysgol, cymdeithasol neu emosïynol. Ein bwriad yw uniaethu gyda'r anghenion hyn mor fuan â phosib. Mae ein Polisi Anghenion Arbennig yn nodi'r camau y mae'n rhaid eu dilyn i adnabod anghenion y plentyn ac i ddarparu i orchfygu'r broblem. Darperir cynllun addysg bersonol i blant sy'n cael sylw ychwanegol gyda darllen, ysgrifennu, rhif ac ymddygiad.

Addaswyd yr ysgol o'r tu allan i dderbyn plant o dan anfantais gorfforol drwy osod rampiau tu allan i rai dosbarthiadau i alluogi cadair olwyn fynd i mewn ac allan o'r adeilad.

### Cydgysylltwyr

Y prif-gysylltydd yn yr ysgol yw'r Pennaeth, ond gall ddirprwyo'r gwaith i gydgyssylltydd AAA, (SENCO). Penodir un Llywodraethwr gan y Corff Llywodraethol i fod yn gydlynnydd AAA.

### Gwybodaeth am Bolisi'r Ysgol ar Gyfer Nodi, Asesu a Darparu ar gyfer pob Disgybl AAA

#### Adnabod yn Gyfnar

I helpu adnabod plant all fod ag anghenion addysgol arbennig, gall ysgolion fesur cynnydd plant trwy gyfeirio at:

- Eu perfformiad wedi ei fonitro gan yr athro/athrawes fel rhan o arsylwi ac asesu cyson
- Y canlyniadau o asesu sylfaen
- Eu cynnydd mewn llythrennedd a rhifedd
- Eu perfformiad yn erbyn y disgrifiadau lefel yn y Cwricwlwm Cenedlaethol ar derfyn cyfnod allweddol
- Arfau sgrinio neu asesu safonol
- Dylai ysgolion hefyd fod yn agored ac ymatebol i fynegiant pryder gan rieni, ac ystyried unrhyw wybodaeth y gall y rhieni roi am eu plentyn.

#### Y Dull Gweithredu – Monitro

(Gelwir y cam hwn yn Cam M)

Athrawon yn adnabod Anghenion Addysgol Arbennig plentyn, a thrwy ymgynghori â chydgyssylltydd AAA (SENCO) yr ysgol, yn cymryd y camau cychwynnol.

Nodweddion y cam hwn yw casglu gwybodaeth a mwy o wahaniaethau o fewn gwaith arferol y plentyn yn yr ystafell ddosbarth. Yn y cyfnod hwn mae athro/athrawes dosbarth y plentyn:

- yn dynodi anghenion addysgol arbennig y plentyn
- yn ymgynghori â rhieni'r plentyn a'r plentyn ei hunan a chofnodi'r dyddiad
- yn rhoi gwybod i'r cydgysylltydd AAA sy'n cofrestru anghenion addysg y plentyn
- yn casglu gwybodaeth berthnasol am y plentyn, gan ymgynghori â'r cydgysylltydd AAA.
- yn cydweithio'n agos â'r plentyn yng nghyd-destun arferol yr ystafell dosbarth
- yn arolygu ac yn adolygu cynnydd y plentyn

### **Y wybodaeth sydd ei angen yn y cam hwn:**

#### **Gan yr ysgol**

- cofnodion dosbarth, gan gynnwys cofnodion o ysgolion eraill a fynychodd y plentyn yn ystod y flwyddyn flaenorol
- cyraeddiadau'r CC os yn briodol
- adroddiadau ar y disgybl yn yr ysgol
- arsylwadau ar ymddygiad y plentyn

#### **Gan y rhiant**

- barn ar iechyd a datblygiad y plentyn
- eu barn am berfformiad y plentyn, ei gynnydd a'i ymddygiad yn yr ysgol a'r cartref
- ffactorau sy'n cyfrannu at unrhyw anhawster
- camau y gallai'r ysgol eu cymryd

#### **Gan y plentyn**

- ei deimladau personol am unrhyw anawsterau
- sut y gellid rhoi sylw iddynt

(Wrth holi'r plentyn rhaid ystyried ei oedran, ei allu, ayb)

#### **O ffynonellau eraill**

- unrhyw wybodaeth sydd eisoes ar gael i'r ysgol gan y gwasanaethau iechyd neu'r gwasanaethau cymdeithasol neu unrhyw ffynhonnell arall.

#### **Arolwg**

Gwneir arolwg o ddatblygiad y plentyn neu ddiffyg datblygiad. Os nad yw pethau'n gweithio rhaid symud ymlaen i'r cam nesaf.

### **Y Dull Gweithredu – Gweithredu gan yr ysgol**

(Gelwir y cam hwn yn Cam GY)

Nodweddion y cam hwn yw cynhyrchu cynllun addysg unigol. Yn y cyfnod hwn y cyd-gysylltydd AAA sy'n gyfrifol am gyd-gysylltu darpariaeth addysgol arbennig y plentyn a gweithio gydag athrawon y plentyn bob amser.

- yn casglu gwybodaeth berthnasol gan gynnwys, os yn briodol, gwybodaeth o ffynonellau y tu allan i'r ysgol
- yn sicrhau fod cynllun addysg unigol yn cael ei lunio – gan amlaf gan yr athro/athrawes dosbarth mewn cydweithrediad â'r cydgysylltydd AAA
- yn sicrhau y rhoddir gwybodaeth i rieni'r plentyn, os na wnaethpwyd hynny'n gynt
- yn arolygu ac yn adolygu cynnydd y plentyn dair gwaith y flwyddyn.

#### **Cynllun Addysg Unigol**

- Natur anawsterau dysgu'r plentyn, gan gynnwys ymddygiad, problemau cymdeithasol ayb.

Cynnwys:

- Darpariaeth addysg arbennig
- Ymglymiad staff, gan gynnwys amledd y cymorth
- Rhaglenni/gweithgareddau/deunyddiau/offer penodol
- Cymorth gan y rhieni gartref
- Cofnod o gyfranogiad y plentyn (lle bo'n gymwys)
- Targedau i'w cyflawni o fewn amser penodedig. (Targedau manwl, a rhoddir cyfnod o amser i'w cyrraedd)
- Unrhyw ofal bugeiliol neu ofynion meddygol

- Meini prawf llwyddiant a chanlyniadau
- Trefniadau arolygu ac asesu, yr athro/athrawes yn adrodd yn ôl i'r cydgysylltydd
- Trefniadau adolygu a'r dyddiad. Gwneir adolygiad dair gwaith y flwyddyn

### **Y Dull Gweithredu – Gweithredu gan yr ysgol a mwy**

(Gelwir hwn yn Gam GY+)

Nodweddir Cam GY+ gan ymglymiad arbennig o'r tu allan i'r ysgol. Mae'r cydgysylltydd AAA yn parhau i chwarae rôl flaenllaw, gan gydweithio'n agos ag athrawon y plentyn ac yn:

- Tynnu ar gyngor arbenigwyr allanol, e.e. seicolegwyr addysgol ac athrawon ymgynghorol
- Sicrhau ymgynghori â'r plentyn a'i rieni
- Sicrhau fod cynllun addysgol unigol yn cael ei lunio
- Cysylltu ag arbenigwyr allanol – gall hyn gynnwys athrawes AAA yr ysgol yn arolygu ac yn adolygu cynnydd y plentyn.

### **Cynllun Addysg Unigol**

- Natur anawsterau dysgu'r plentyn
- Ymglymiad staff gan gynnwys amledd cymorth
- Ymglymiad arbenigwyr allanol gan gynnwys amledd ac amseru
- Rhaglenni/gweithgareddau/deunyddiau/offer priodol
- Cymorth gan rieni gartref
- Cofnod o gyfranogiad y plentyn (lle bo'n gymwys)
- Targedau realistig i'w cyflawni o fewn amser penodedig
- Unrhyw ofal bugeiliol neu ofynion meddygol
- Meini prawf llwyddiant a chanlyniadau
- Trefniadau arolygu ac asesu
- Trefniadau adolygiad a'r dyddiad

Adolygir datblygiad y plentyn dair gwaith y flwyddyn.

### **Asesiad Statudol o Anghenion Addysgol Arbennig**

#### **Y Pedwerydd Cam – Cam o Asesiad Statudol**

(Gelwir y cam hwn yn AS)

Dylai anghenion y mwyafrif o blant sydd ag AAA gael eu diwallu'n effeithiol o dan y camau ysgol, heb ymglymiad statudol yr Awdurdod Addysg Leol. Ond mewn nifer fechan o achosion, bydd yr AALI yn gwneud asesiad statudol o Anghenion Addysgol Arbennig.

Rhaid i'r AALI adnabod a gwneud asesiad statudol o'r plant hynny y maent yn gyfrifol amdanynt, sydd ag Anghenion Arbennig, ac sy'n debygol o fod angen datganiad.

#### **Nid yw cyfeirio ac asesiad bob amser yn arwain at ddatganiad.**

Y mae 2 fath o gyfeirio yn berthnasol i'r ysgol:

- a) gan yr ysgol neu asiant arall
- b) cais ffurfiol gan y rhiant

Mewn nifer fechan o achosion, gall yr ysgol ystyried fod angen asesiad statudol hyd yn oed heb gwblhau'r camau Gweithredu Ysgol/a Mwy.

Cyn i'r ysgol wneud cais am asesiad mae'n rhaid i'r ysgol ddangos tystiolaeth o'r camau a gymerwyd.

Bydd yr ysgol yn sicrhau fod y rhieni'n ymwybodol, ac yn deall bob cam a gymerir, a'r rôl yn yr asesu, wrth wneud asesiad statudol.

#### **Cwynion**

Mae nodyn yn llawlyfr yr ysgol ynglŷn â hyn.

### **Integreiddio Plant ag AAA**

Ar y cam cyntaf bydd y plentyn yn aros yn ei ddosbarth arferol ac, o fewn ei allu, yn gwneud popeth sydd ar y daflen amser, ac yn gweithio ar y cwricwlwm arferol, sydd wedi ei addasu ar gyfer ei anghenion.

Ar yr ail gam bydd y plentyn, am gyfnod yn gweithio mewn ystafell sydd wedi ei neilltuo ar gyfer gwersi AAA, un ai yn unigol, neu mewn grŵp o ddim mwy na 6 o blant â'r un math o anawsterau. Bydd yr amser y bydd y plentyn yn ei dreulio â'r athro/athrawes AAA yn dibynnu ar:

- a) ei anghenion personol
- b) amser yr athro/athrawes AAA

Gwneir pob ymdrech i'r symudiad o'r dosbarth fod mor naturiol a di-stŵr ag sy'n bosibl, ac i beidio â bod yn boen, na chodi cywilydd ar unrhyw blentyn. Os yw'r plentyn yn anhapus neu'n anghyfforddus oherwydd hyn, ceir trafodaeth â'r cydgysylltydd a'r athro/athrawes dosbarth, gan ymgynghori â'r plentyn ynglŷn â'r dull gorau o ddysgu'r plentyn. Rhoddir ystyriaeth wedyn i ddysgu'r plentyn yn y dosbarth.

### **Cefnogaeth o'r tu allan i'r Ysgol**

Cysylltir yn rheolaidd ag athrawon ymgynghorol yr AALI am eu cymorth a'u barn.

### **Trefniadau ar gyfer Rhieni Plant ag AAA**

Mae cyfle i rieni weld polisi AAA yr ysgol. Mae'r polisi yn egluro iddynt eu bod yn rhan o ddatblygiad addysgol y plentyn, ac yn rhydd i chwarae rhan a mynegi eu barn.

Hefyd, yn ôl gofynion anghenion arbennig y plentyn, bydd y cydgysylltydd yn rhoi gwybodaeth i'r rhieni o'r gwasanaethau sydd ar gael, megis y rhai a ddarperir gan yr AALI.

### **Partneriaeth**

Mae trefniadau i gofnodi pryderon rhieni a gweithredu ar hynny yn y Côd Ymarfer.

Os yw rhiant drwy gyfrwng llythyr neu sgwrs yn datgan pryder ynglŷn â datblygiad ei blentyn, yna bydd y cydgysylltydd a'r athro/athrawes dosbarth yn trafod hyn ac yn penderfynu os yw'n briodol gosod y plentyn ar y camau yn ôl y Côd Ymarfer ac yn mynegi ar lafar eu penderfyniad.

### **Y Cysylltiad â'r Ysgolion Prif-Ffrwd a'r Ysgolion Arbennig**

Os bydd digwydd i blentyn sydd ar restr AAA symud o'r ysgol i ysgol arall, bydd y cydgysylltydd yn sicrhau fod yr holl wybodaeth a'r dystiolaeth briodol yn cael eu hanfon i'r ysgol dan sylw.

Os bydd y plentyn yn symud i'r ysgol uwchradd, yna bydd y wybodaeth yn cael ei throsglwyddo yn yr un modd, a hefyd os oes angen, bydd y cydgysylltydd yn trefnu cyfarfod â'r athro/athrawes AAA yn yr ysgol uwchradd i drafod y plentyn.

### **Cysylltiad â'r AALI ac Asiantaethau eraill**

#### **Y Meddyg**

Bydd cyfle i ddisgyblion yr ysgol gael archwiliad meddygol gyda'r Meddyg Cymunedol wedi hysbysiad a thrafodaeth gyda'u rhieni ac athro.

#### **Y Nyrs**

Bydd pob plentyn ym Mlwyddyn Derbyn yn derbyn holiadur iechyd/feddygol gan y Cynghorydd Iechyd ar gyfer pobl ifanc. Wedi derbyn caniatâd y rhiant bydd pob plentyn dosbarth Derbyn yn cael prawf golwg a chlyw.

#### **Y Gwasanaethau Cymdeithasol**

Cedwir cysylltiad agos â'r gwasanaethau cymdeithasol, os oes unrhyw sylw cymdeithasol y dylai'r gwasanaethau fod yn ymwybodol ohono, neu unrhyw wybodaeth berthnasol sydd gan y gwasanaeth y dylai'r ysgol fod yn ymwybodol ohono a allai effeithio ar addysg/datblygiad y plentyn.

#### **Hyfforddiant Plant ag AAA**

Bydd y cydgysylltydd a'r athro/athrawes AAA yn manteisio ar bob cyfle i fynychu cyrsiau sy'n ymwneud ag AAA, os bydd cyllid yn caniatáu.

#### **Adnabod Plant ag AAA**

Weithiau bydd plentyn yn cyrraedd yr ysgol o ysgol arall a'r angen am gymorth AAA wedi ei nodi'n barod. Bydd y cysylltydd yn trafod y dogfennau a dderbyniwyd gan yr ysgol arall hefo'r athro/athrawes a hefyd hefo'r

athro/athrawes AAA. Wedi cysylltu â thrafod gyda rhieni'r plentyn dan sylw, bydd yn rhaid paratoi rhaglen waith unigol yn ôl y Côd Ymarfer.

Gan amlaf bydd yr athro/athrawes ddsbarth yn sylwi fod problemau datblygiad gan blentyn ac yna yn tynnu sylw'r cydgysylltydd at hyn. Yna bydd y cydgysylltydd yn trafod â'r athro/athrawes ddsbarth y cam nesaf i'w ddilyn yn ôl y Côd Ymarfer, gan sicrhau fod y rhieni yn gwybod am bob cam a gymerir.

### **Derbyn Plant AAA**

Mae'r ysgol bob amser yn barod i dderbyn bob plentyn AAA.